



Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Cylchlythyr

Gair gan y Cadeirydd

Wel, i ddechrau'n gadarnahol, mae'n ymddangos bod y glaw di-baid parhaus wedi lleihau. Rydyn ni hyd yn oed wedi cael diwrnodau gwanwyn hyfryd. Mae pethau'n edrych yn bositif. Efallai y cawn ni haf poeth hir.

Fodd bynnag, mynychais i a'ch cynrychiolwyr Llywodraethwyr Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro Gyfarfod Fforwm Cyllideb Addysg braidd yn ddigalon ychydig wythnosau yn ôl. Mae'r Fforwm Cyllideb yn ofyniad statudol ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae ganddi aelodau Penaethiaid a Llywodraethwyr o bob sector – Cynradd, Uwchradd, Arbennig, Cyfrwng Cymraeg, Ffydd – ynghyd â'r uwch staff o Wasanaeth Addysg y Fro a'r Aelod Cabinet perthnasol. Ei rôl yw goruchwyllo'r dosbarthiad teg o arian i ysgolion, dyraniad sylfaenol Llywodraeth Cymru, ac yna'r llu o grantiau eraill sy'n ymddangos at wahanol ddibenion yn ystod y flwyddyn.

Hwn oedd cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf y pwyllgor ers peth amser. Dim ond ar-lein rydym wedi bod yn gweld ein gilydd. Tanlinellwyd difrifoldeb y sefyllfa gan bresenoldeb Prif Weithredwr y Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyllid, ac roedd presenoldeb llawn o Benaethiaid a Llywodraethwyr.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Cyllid sefyllfa enbyd cyllid ysgolion yn y Fro. Amcanestyniadau cyfredol yw y bydd cronfeydd wrth gefn cronus ar gyfer ysgolion yn y Fro yn symud o warged saith ffigur ym mis Mawrth 2023 i ddiffyg saith ffigur a ragwelir ar gyfer mis Mawrth 2025. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i beidio â chyllido'r codiadau cyflog i staff - y rhai sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu. Gan fod tua 90% o gyllideb y rhan fwyaf o ysgolion yn cael eu gwario ar gostau staff, mae'n amlwg y bydd mwyafrif helaeth ysgolion y Fro yn cyhoeddi cyllidebau diffyg ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Mae hwn yn fater Cymru gyfan. Penaethiaid yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Phowys eisoes wedi bod yn ysgrifennu at rieni. Mae'n arbennig o ddrwg yn y Fro oherwydd tanariannu yn y gorffennol. Mae ysgolion y Fro yn rhedeg gyda'r lleiafswm posibl o staff i ddarparu gofynion statudol.

Dim ond un cyfle sydd gan y dysgwyr yn ein gofal yn eu haddysg ac mae'r diffyg arian yn golygu llai o athrawon a chynorthwyrwyr cymorth dysgu, dosbarthiadau mwy, llai o gymorth i blant ag anghenion ychwanegol, llai o gymorth ymddygiad, llai o lyfrau....

Mae dysgwyr yn y Fro ac yng Nghymru gyfan yn haeddu gwell. Mae'n gymdeithas dlawd yr un nad yw'n credu ei bod yn werth buddsoddi yn ei phlant.

Dr Martin Price - Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn,

Rhifyn 58


Tymor yr Haf 2024

Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA I;

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI T
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol



Gofalwyr Ifanc Di-dâl:

Codi ymwybyddiaeth, nodi a chymorth.

Mae gofalwyr ifanc yn blant a phobl ifanc dan 18 oed sy'n darparu gofal a chymorth i aelod o'r teulu sy'n anabl, yn dioddef salwch corfforol neu feddyliol, neu'n dioddef oherwydd camddefnyddio sylweddau.

Gall y person y mae'n gofalu amdano fod yn rhiant, yn frawd/chwaer, yn dad-cu/fam-gu neu'n berthynas arall. Gall ddarparu gofal ymarferol neu gorfforol helpu gyda gofal personol, a helpu gyda thasgau domestig a/neu gymorth emosiynol. Mae tua 1 o bob 8 o bobl ifanc yn ofalwyr ifanc di-dâl.

Mae timau o bob rhan o'r awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu deall a'u nodi ac yn derbyn cymorth priodol. Mae hyn yn ddull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn o gefnogi gofalwyr ifanc, o'r cam nodi i ddarparu cymorth i ofalwyr ifanc gan y Tîm Cymorth Cynnar a Phrosiect Gofalwyr Ifanc y YMCA, gyda chymorth a her o ran addysg i ofalwyr ifanc trwy'r Tîm Cysylltiadau Dysgu.

Pa gymorth sydd ar gael i Ofalwyr Ifanc yn y Fro?

Y Tîm Cysylltiadau Dysgu (TCD)

01446 709130 learninnglinksteam@valeofglamorgan.gov.uk

Mae'r Tîm Cysylltiadau Dysgu yn dîm arbenigol o weithwyr addysg proffesiynol sy'n gweithio o fewn Gwasanaeth Safonau a Darpariaeth Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Bro Morgannwg.

Rydym yn deall bod rhai plant a phobl ifanc yn wynebu heriau ychwanegol a allai effeithio ar eu bywydau a'u haddysg.

Ein nod yw i Ofalwyr Ifanc deimlo eu bod yn cael eu gweld, eu clywed a'u cefnogi, fel y gallant gael mynediad i addysg briodol a chyflawni'r deilliannau addysgol gorau posibl.

Rydym yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, athrawon dynodedig mewn ysgolion, gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod dyheadau uchel a chymorth targedig yn nod a rennir gan bawb sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y plant a'r bobl ifanc eu hunain, rhieni/gofalwyr, Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf, y Tîm Cymorth Cynnar, awdurdodau lleol eraill ac ysgolion.

Mae'r TCD yn rhoi cymorth a hyfforddiant i ysgolion i ddiwallu anghenion addysgol dysgwyr a nodwyd yn ofalwyr ifanc.

Mae'r TCD yn bwynt cyswllt cyntaf i ysgolion, athrawon dynodedig, Gwasanaethau Plant, iechyd, a phartneriaid trydydd sector, i ddiwallu anghenion unigol gofalwyr ifanc. Mae hyn yn sicrhau dull amlasiantaethol cydlynol o gefnogi gofalwyr ifanc ar eu ffordd i lwyddiant.



Cymorth Cynnar y Fro/Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf (LIGTG)

0800 0327322 familiesfirstadvice@valeofglamorgan.gov.uk

Mae ein gwasanaeth yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ym Mro Morgannwg. Mae ganddo'r cyfrifoldeb am dderbyn ceisiadau ac atgyfeiriadau ar gyfer y Swyddog Gofal Cymdeithasol (Gofalwyr) i gwblhau asesiadau rhiant/gofalwr ifanc i nodi anghenion.

Rydym yn:

- Darparu gwybodaeth am ofalwyr di-dâl.
- Cydweithio â'r TCD, y YMCA, a gwasanaethau ieuenctid eraill i godi ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc
- Cefnogi teuluoedd am tua 6-12 wythnos i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu.
- Cyfeirio teuluoedd at wasanaethau perthnasol gan ddibynnu ar eu hanghenion a'u gofynion.
- Mae'r holl atgyfeiriadau'n cael eu sgrinio trwy LIGTG a fydd wedyn yn anfon yr holl fanylion angenrheidiol

Ymweliadau ar y cyd ag ysgolion gan y TCD a LIGTG:

- Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o beth yw gofalwr ifanc
- Atgoffa ysgolion o Lwybr Atgyfeirio'r Bro i LIGTG
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion trwy wasanaethau ysgol/posteri ac ati
- Sicrhau bod arweinwyr gofalwyr ifanc mewn ysgolion yn cael gwybod am y cymorth sydd ar gael i ofalwyr ifanc yn y Fro
- Cefnogi ysgolion i drafod atgyfeiriadau â rhieni
- Hyrwyddo'r Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion

Rhwng mis Mawrth 2024 a mis Mai 2024, cynhaliwyd 19 ymweliad. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i LIGTG, yn enwedig mewn perthynas â disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy.

Mae cyfanswm o 165 o ofalwyr ifanc wedi'u nodi hyd yn hyn. O'r rhain, mae gan 67 ohonynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY), y mae gan 24 ohonynt anghenion iechyd cymdeithasol, emosïynol a meddyliol (ICEM).

Mae gwaith partneriaeth traws-gyfarwyddiaeth effeithiol wedi dangos bod ysgolion y Fro'n ymrwymedig i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc.





Prosiect Gofalwyr Ifanc y Fro



<https://www.ymcacardiff.wales/family-work/young-carers/>

Mae Prosiect Gofalwyr Ifanc y Fro yn cael ei ariannu gan Gyngor Bro Morgannwg ac yn cael ei redeg gan YMCA Caerdydd. Ar hyn o bryd mae'n cefnogi tua 140 o ofalwyr ifanc ledled y sir. Rydym yn darparu gweithgareddau seibiant rheolaidd i ofalwyr ifanc rhwng 7 a 18 oed, gan roi cyfle iddynt gymdeithasu, dysgu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau a chael hwyll!

Mae'r **Clwb Ieuentid Gofalwyr Ifanc** yn Hyb y YMCA, Court Road, Y Barri CF63 4EE, ar agor bob nos lau a nos Wener yn ystod y tymor i bobl ifanc sydd wedi cael eu derbyn ar ôl eu hatgyfeirio i'r Prosiect.

Mae YMCA Caerdydd hefyd yn cyflwyno'r **cardiau adnabod Gofalwyr Ifanc**, <https://www.ymcacardiff.wales/ycid/> Cardiau syml yw'r rhain i helpu gweithwyr proffesiynol gan gynnwys meddygon, athrawon a fferyllwyr i adnabod gofalwyr ifanc a'u cefnogi'n briodol.

Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion

07860 957621 LisaHowells@Tuvida.org

<https://www.tuvida.org/young-carers-in-schools>

Mae'r Tîm Achredu a Grantiau Gofalwyr wedi bod yn gweithio gydag ysgolion ym Mro Morgannwg ers mis Tachwedd 2016. Ers mis Ebrill 2024, mae'r gwasanaeth wedi cael ei redeg gan yr elusen TuVida.

Mae **saith o wyth** ysgol uwchradd yn y Fro wedi cyflawni o leiaf **un** cam o'r Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion, gyda **thair o wyth** yn cyflawni **dau gam**, a **dwyt o wyth** yn cyflawni'r pob un o'r **tri** chfnod.

Ar ddechrau mis Ebrill 2024 roedd gennym **dair ysgol gynradd** yn cymryd rhan ac yng nghanol mis Mai mae tair ysgol arall â diddordeb mewn dysgu mwy am y broses ac yn fwy awyddus i gael hyfforddiant staff i gynorthwyo nodi gofalwyr cudd.

Yn ddiweddar buom yn gweithio gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofalwyr Ifanc i ddatblygu cyflwyniad ar gyfer Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc ym mis Mawrth 2024, lle rhannodd myfyrwyr eu barn ar yr hyn sy'n gwneud 'Dyfodol Tecach i Ofalwyr Ifanc'.


Yn ystod Wythnos Gofalwyr 10-16 Mehefin 2024, byddwn yn rhannu ein hymatebion i rai o'r awgrymiadau a wnaed mewn sesiwn wedi'i recordio i ysgolion eu defnyddio mewn amser dosbarth cofrestru, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o gymorth i ofalwyr di-dâl o bob oed a'r cymorth y mae ysgolion yn ei gynnig.




Cyfarfodydd ar y Cyd y Rhwydwaith Cyngorau Ysgol

Mae Gwasanaeth Ieuenctid y Fro wedi parhau i hwyluso cyfarfodydd ar y cyd y rhwydwaith cyngorau ysgol tymhorol gan roi cymorth parhaus ar lais y disgybl. Mae'r cyfarfodydd hyn yn dod â disgyblion o bob ysgol uwchradd ynghyd i gwrdd â disgyblion eraill a rhannu eu gwaith llais y disgybl. Cynhelir y cyfarfodydd unwaith y tymor yn siambrau'r cyngor a mynychir hwy gan y Cynghorydd Rhiannon Birch, yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg, y Cynghorydd Ewan Goodjohn, Hyrwyddwr Ieuenctid, Uwch Arweinydd o'r Adran Addysg.

Mae'n gyfle i ddisgyblion ddysgu mwy am faterion y cyngor ac addysg ac mae'n rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae disgyblion wedi cael cyfle i glywed am y Strategaeth Gymdeithasol, Emosiynol, Iechyd Meddwl a Lles yn ogystal â chynlluniau arfaethedig i ddiweddarau'r Polisi Gwrth-fwlio. Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar 28 Mehefin yn Siambrau'r Cyngor a byddem yn annog llywodraethwyr ysgolion uwchradd sy'n gysylltiedig â chymorth llais y disgybl i annog eu hysgolion i fynychu a rhannu eu newyddion ysgol ac i roi adborth ar eu profiadau o fynychu'r cyfarfodydd. Hoffem ddiolch i'r holl ysgolion sydd wedi mynychu'r cyfarfodydd a gynhaliwyd.



Cynhaliwyd y cyfarfod ar 9 Tachwedd 2023



Cynhaliwyd y cyfarfod ar 22 Mawrth 2024



the **BIG**
FRESH
Catering
company



Bu'n gyfnod prysur iawn arall i ni yma yn Big Fresh, Llwyddom i gyflwyno PYDdHBYC (Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd) yn llawn ar gyfer pob plentyn oedran cynradd ym Mro Morgannwg ers mis Ebrill 2023. Mae hon wedi bod yn dasg enfawr i'w chyflawni ac yn un yr ydym yn hynod falch ohoni gan mai ni oedd yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i gael ei gyflwyno i bob oedran cynradd. Mae'r adborth rydyn ni wedi'i dderbyn gan ein hysgolion wedi bod yn galonogol iawn ac yn ein rhoi mewn sefyllfa gadarnhaol iawn i wthio ymlaen gan barhau â'r safon wedi dod yn nodweddiadol o Big Fresh. Fel cydnabyddiaeth o'r safon a osodwyd gan ein staff, mae gennym yn Big Fresh, ar hyn o bryd 2 aelod o staff yn rownd derfynol ranbarthol Cymru yng nghystadleuaeth cogydd ysgol y flwyddyn sy'n cael ei chynnal yn Cannock ar 22 Mai.

Cafodd tîm rheoli Big Fresh Catering eu henwebu ac maent wedi ennill tîm rheoli ar gyfer Cymru yn ein seremoni wobrwyo ranbarthol CAALlau Cymru (cymdeithas arlwyyo awdurdodau lleol). Mae hyn yn rhywbeth yr ydym i gyd yn falch iawn ohono ac yn dangos pa waith gwych yr ydym wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf gyda The Big Fresh Catering Company.

Mae'n bleser gan Big Fresh gyhoeddi agoriad canolfan Gymunedol Belle Vue ym Mhenarth fis Awst 2023. Rydym wedi cymryd ardal gaffi yn y ganolfan gymunedol a fydd yn cynnig yr un bwyd a diod â'n lleoliad Big Fresh arall yn y pier. Mae'r gofod yn lle gwych am weithfan neu'r lleoliad perffaith ar gyfer cyfarfod staff, diwrnod i ffwrdd o'r swyddfa neu barti plant. Dewch i edrych ar eich hun gyda choffi braf a darn o gacen yn amgylchedd hyfryd Parc tawel Belle Vue. Mae Big Fresh yn y Pier yn parhau i ffynnu ac wedi bod yno unwaith eto i wasanaethu criwiau a chymeriadau ffilm sydd wedi digwydd dros y 6 mis diwethaf. Cadwch lygad am yr adeilad ar eich teledu yn fuan. Yn yr un modd â'n tryc bwyd Airstream na ellir ei golli, rydym wedi ein lleoli yn Ysgol Uwchradd Whitmore trwy gydol y tymor pêl-droed i fwydo rhieni'r Lionel Messi neu Sam Kerr nesaf. Gobeithio eich bod wedi ein gweld ac wedi blasu rhai danteithion, os nad ydych wedi gwneud hynny, byddwn mewn gwahanol ddiwyddiadau dros yr haf felly peidiwch â bod yn swil a dewch i ddweud helo.

Mae ochr bwffe ein busnes yn dal i fynd o nerth i nerth, felly cofiwch, os oes gennych chi gyfarfodydd o unrhyw fath a'ch bod yn chwilio am wasanaeth arlwyyo i greu argraff ar eich cydweithwyr neu'ch ffrindiau, cysylltwch â ni a gadewch i ni helpu.

[Ysgolion - Big Fresh Catering Company](#)



Gwasanaeth Addysg a Gwasanaeth Ieuencid Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu canmol mewn adroddiadau arolygu

(Update taken from Staffnet; May 2024)

Yn ddiweddar, cynhaliodd Estyn ddau arolygiad ar wahân, un yn asesu'r gwasanaeth addysg llywodraeth leol yn ei gyfanrwydd a ddarperir gan y Cyngor a'r ail yn canolbwyntio ar y Gwasanaeth Ieuencid. Mae adroddiadau Estyn, a gyhoeddwyd heddiw, yn ganmoliaethus iawn am berfformiad y ddau.

Dywedodd y Prif Weithredwr Rob Thomas: "Rwy'n gwybod faint o baratoi aeth i mewn i'r arolygiadau hyn a pha mor galed mae cydweithwyr yn y Gwasanaeth Ieuencid a Dysgu a Sgiliau yn gweithio. Rwyf wrth fy modd bod yr ymdrech hon wedi'i hadlewyrchu yn yr adroddiadau arolygu hyn.

"Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran am eich ymroddiad a'ch ymrwymiad i bobl ifanc ein cymunedau.

"Mae eich cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r unigolion hyn, gan roi cyfleoedd, hyder a'r llwyfan iddynt fod yn llwyddiannus yn ddiweddarach mewn bywyd.

"Gall arolygiadau fod yn straen, ond aeth pawb dan sylw at yr her hon gyda'r proffesiynoldeb mwyaf ac mae'r canlyniadau yno i bawb eu gweld. Llongyfarchiadau, rydych wedi gwneud y Fro yn falch."

"Mae'r adroddiadau hefyd yn deyrnged addas i'n Cyfarwyddwr - Paula Ham, sy'n ymddeol o'r Cyngor ddiwedd mis Mehefin. Mae'r adroddiadau hynod gadarnhaol hyn yn rhoi tystiolaeth gadarn o'r ymrwymiad y mae Paula wedi'i ddangos i waith addysg ac ieuencid ym Mro Morgannwg yn ystod ei chyfnod fel Cyfarwyddwr ac yn rhywbeth y dylai fod yn hynod falch ohono."

Mae adroddiad y gwasanaeth addysg yn datgan: "Mae swyddogion yn cyflawni eu rôl yn ddiwyd ac maent wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc yn y Fro fynediad at addysg a chymorth o ansawdd uchel...

"Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cefnogaeth gref i'w ysgolion mewn perthynas â chefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae swyddogion wedi gweithio'n dda i gynllunio'n strategol a darparu cymorth i ysgolion baratoi ar gyfer Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) a'r Tribiwnlys Addysg (ADYTA). Yn ogystal, mae'r gefnogaeth i ysgolion wella presenoldeb disgyblion yn effeithiol ar y cyfan. Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio ystod eang o ddata ac yn gweithio'n agos gydag ysgolion a theuluoedd, ac mae presenoldeb yn gwella.

"Mae aelodau, uwch arweinwyr a swyddogion wedi ymrwymo i leihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc ac mae gwaith yn y maes hwn wedi canolbwyntio'n agos ar wella lles, cefnogi teuluoedd a mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd...

"Mae gweithio ar draws cyfarwyddiaethau yn gryfder nodedig yng ngwaith yr Awdurdod Lleol. Mae'r uchelgeisiau cyffredin a chynllunio ar draws cyfarwyddiaethau wedi sicrhau gweithio'n effeithiol ar draws yr holl gyfarwyddiaethau sydd wedi cefnogi gwasanaethau addysg yn dda. Mae hyn wedi helpu'r Awdurdod Lleol i flaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg a gweithio ar y cyd....."



Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys dau argymhelliad, sef "mireinio ffocws prosesau gwerthuso a gwella" a "gwella ansawdd a defnydd o wybodaeth am ddysgu ac addysgu mewn ysgolion er mwyn galluogi'r Awdurdod Lleol i gyfeirio ei adnoddau at feysydd i'w gwella yn y ffordd orau."

Roedd canmoliaeth debyg i'r gwasanaeth ieuencid, gyda'r adroddiad i'w weithgareddau'n datgelu: "Drwy gymryd rhan yng ngweithgareddau gwasanaeth ieuencid y Fro, mae llawer o bobl ifanc yn ennill y sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd i gefnogi eu datblygiad personol a'u lles eu hunain. Maent yn datblygu ystod eang o sgiliau yn ogystal ag ennill achrediad mwy ffurfiol trwy amrywiaeth o wobrau a chyfleoedd achredu lleol a chenedlaethol.

"Mewn sesiynau ysgol wedi'u targedu, mae pobl ifanc yn datblygu gwytnwch a sgiliau ymdopi sy'n gwella eu dysgu ffurfiol. Mae llawer nad ydynt wedi mwynhau llwyddiant o'r blaen yn magu hyder, yn ffurfio perthnasoedd gwell ac yn ystyried eu dyfodol.

"Mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn mynegi eu barn yn yr holl sesiynau yr ydym wedi'u harsylwi. Mae aelodau Cyngor Ieuencid y Fro yn mynegi eu barn a'u safbwyntiau mewn modd soffistigedig a chytbwys. Mae'r bobl ifanc hyn yn datblygu dealltwriaeth gref o'r broses ddemocrataidd ac yn dod yn siaradwyr cyhoeddus medrus. Mae pobl ifanc eraill yn mynegi eu hunain trwy weithgareddau chwaraeon, prosiectau crefft ymladd a garddio. Maent yn dangos awydd i gyfrannu at ddeinameg y grŵp.

Mae llawer o bobl ifanc yn hyderus wrth fynegi eu hunaniaeth a'u safbwyntiau eu hunain tra hefyd yn dysgu gwerthfawrogi eraill. Maent yn dod yn eiriolwyr effeithiol dros eu hawliau, cynhwysiant a chyfiawnder cymdeithasol. Maent yn herio gwahaniaethu, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn creu newid cadarnhaol o fewn eu grwpiau cyfoedion...

"Mae ansawdd y gwaith ieuencid yn gyson uchel. Mae gweithwyr ieuencid yn glir iawn ynghylch egwyddorion gwaith ieuencid ac yn adlewyrchu hyn yn eu hymarfer. Maent yn ymroddedig i'w rolau, yn cyfathrebu'n effeithiol, yn meithrin perthynas gadarnhaol â phobl ifanc ac mae ganddynt lefelau uchel o egni a brwdfrydedd. Maent bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella a mireinio eu gwaith. Mae'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau ysgol yn uchel eu parch gan staff yr ysgol fel gweithwyr proffesiynol cyfartal. Maent yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr.

"Mae gweithwyr ieuencid yn asesu anghenion pobl ifanc sydd â heriau mwy cymhleth yn gyflym ac mae'r berthynas waith gadarnhaol o fewn ac ar draws y gwahanol dimau a phartneriaid yn golygu bod cefnogaeth yn brydlon ac effeithlon. Mae ganddynt yr agwedd, beth bynnag fo'r rhwystrau, na fyddant byth yn rhoi'r gorau iddi gyda pherson ifanc. Mae'r hyder ynddynt yn uchel ac maent yn chwarae rhan arwyddocaol yn cefnogi pobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd yn ogystal ag ymestyn cefnogaeth effeithiol i'r teulu ehangach...

"Mae gwasanaeth ieuencid Bro Morgannwg wedi'i seilio'n gryf ar lais pobl ifanc ac ar ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i dyfu fel dinasyddion hyderus a gwybodus."

Dim ond un argymhelliad a wnaeth yr arolygwyr, sef "Datblygu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth gwaith ieuencid cyfrwng Cymraeg a dwyieithog."

Mae'r adborth hynod gadarnhaol hwn yn sicrhau y gall y Cyngor symud ymlaen o sefyllfa o gryfder wrth ddarparu'r gorau i'n plant a'n pobl ifanc.



CANLYNIADAU GWNEUD EICH MARC 2024



Hwylusodd Gwasanaeth leuencid y Fro yr Ymgyrch Gwneud eich Marc eleni a phleidleisiodd 4837 o bobl ifanc o bob rhan o Fro Morgannwg ar y pwnc sydd bwysicaf iddyn nhw. Diolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion uwchradd a gefnogodd y gwaith o gynnal ymgyngoriad mwyaf y DU ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed drwy Senedd leuencid y DU. Mae ysgolion wedi derbyn eu canlyniadau unigol.

[Y Gwasanaeth leuencid \(valeofglamorgan.gov.uk\)](http://valeofglamorgan.gov.uk)

PAFILIWN PIER PENARTH



CYNYRCHIADAU GWYCH ROMEO A JULIET A


DR DOOLITTLE

Mae Pafiliwn Pier Penarth yn cynnal y cwmni theatr awyr agored arobryn llyria unwaith eto eleni! Ymunwch â ni ar gyfer 2 gynhyrchiad gwych, Romeo a Juliet a Dr Doolittle. Dewch â chadeiriau â chefn isel neu flancedi a gwisgwch yn gynnes! Mae croeso i chi ddod â phicnic (dim barbeciw), ond bydd lluniaeth ysgafn ar gael.

ROMEO A JULIET, dydd Iau 11 Gorffennaf 2024 am 7pm, tocynnau oedolyn: £18.95/plentyn: £12.95 (dan 12 oed) o EventBrite: [Open air theatre at the Kymin Gardens - Romeo and Juliet Tickets, Thu 11 Jul 2024 at 19:00 | Eventbrite](#)

DR DOOLITTLE, dydd Sadwrn 10 Awst am 3pm, tocynnau oedolyn: £18.95/plentyn: £12.95 (dan 12 oed) o EventBrite: [Open air theatre at the Kymin Gardens - Dr Doolittle Tickets, Sat 10 Aug 2024 at 15:00 | Eventbrite](#)





Cynlluniau Ysgolion Teithio Llesol yng Nghymru – Diweddariad

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod **dros 200 o ysgolion ledled Cymru wedi creu cynllun ysgol teithio llesol**, gydag oddeutu 100 o ysgolion yn cymryd rhan yn y broses o greu eu cynllun eu hunain ar hyn o bryd.

Ym mis Ionawr, cymeradwywyd y ceisiadau cyllido cyntaf ar gyfer Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRiC) a oedd yn gysylltiedig â chynllun ysgol teithio llesol. Mae hyn yn gam sylweddol ymlaen, gan alluogi ysgolion ledled Cymru i weithredu mentrau newid ymddygiad a/neu welliannau seilwaith.

Ar ein [gwefan](#), gall ysgolion ddod o hyd i'r holl gymorth sydd arnynt eu hangen i gynllunio ar gyfer ysgolion mwy egniol: canllawiau syml, templedi, astudiaethau achos, adnoddau dosbarth yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, neu gymorth uniongyrchol gan un o'n swyddogion prosiect.

Er bod rhai ysgolion yn cysylltu â ni'n uniongyrchol, rydym yn croesawu atgyfeiriadau gan dimau awdurdodau lleol.

Os ydych chi'n gwybod am unrhyw ysgolion sydd angen cymorth neu os ydych chi'n ystyried cyflwyno cais SRiC ar gyfer ysgol benodol ym mis Ionawr 2025, rhowch wybod i ni. Rydym yn awyddus i gydweithio'n uniongyrchol ag ysgolion i hwyluso eu taith tuag at deithio llesol.

Yn olaf, hoffem ddiolch i chi am eich ymdrechion a'ch ymrwymiad i greu amgylcheddau ysgol mwy cyfforddus sy'n hawdd eu cerdded. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â thimau awdurdodau lleol ledled Cymru.

Cofion cynnes,

Tim Cynllun Teithio Llesol Ysgolion Sustrans

The Active Travel School Plan Team | Sustrans Cymru

Tim Cynllun Ysgolion Teithio Llesol | Sustrans Cymru





Amddiffyn eich teulu ar-lein; Canllaw i Rieni ar Seiberddiogelwch.

Trwy weithio gyda chydweithwyr plismona yn y Tîm Seiberdroseddu Rhanbarthol, mae tîm diogelu'r ALI, dan arweiniad Jason Redrup, wedi gallu sicrhau 3 sesiwn ar-lein i rieni a staff ar Eventbrite.

Mae hwn yn ddigwyddiad rhad ac am ddim, a sefydlwyd ac a gynhelir gan Uned Troseddu Cyfundrefnol Rhanbarthol yr Heddlu, a gofynnwyd i holl Ysgolion y Fro rannu hyn gyda staff a rhieni.

Yn y weminar gynhwysfawr hon, bydd rhieni a gwarcheidwaid yn cael gwybodaeth ac offer hanfodol i ddiogelu eu teulu pan fyddant ar-lein.

Dyddiadau/Amseroedd:

- 19 Gorffennaf 2024 12.00pm
- 24 Gorffennaf 2024 10.00am
- 31 Gorffennaf 2024 3.30pm

Dolen Gofrestru

[Amddiffyn eich teulu ar-lein: Tocynnau Canllaw i Rieni ar Seiberddiogelwch, Dyddiadau Lluosog | Eventbrite](#)

Rhannwch y digwyddiad hwn yn eang gyda rhieni a gofalwyr





NHS
WALES
GIG
CYMRU

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Mae Brechu yn
achub bywydau
Vaccination
saves lives

Brechu yn ystod Plentyndod: sut mae ysgolion yn helpu i amddiffyn iechyd plant a chymunedau

Brechu yw un o'r pethau pwysicaf y gallwn ei wneud i ddiogelu ein hiechyd a'n lles, ac rydym yn dechrau eu cael o 8 wythnos oed nes ein bod yn [oedrannus](#), gan helpu i atal llawer o glefydau a mathau difrifol o salwch. Mae brechu hefyd yn amddiffyn eraill o'n cwmpas.

Yn anffodus, bu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n derbyn rhai brechlynnau plentyndod dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n golygu bod datblygu afiechydon fel y frech goch yn dod yn fwy tebygol i ni fel poblogaeth.

Mae achosion o'r frech goch ar hyn o bryd yn y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Mae'r frech goch yn glefyd heintus iawn a gall achosi cymhlethdodau difrifol i blant ac oedolion sydd heb eu brechu.

Byddai achosion o'r frech goch mewn unrhyw ysgol yn achosi cryn darfu, gan gynnwys angen i blant ac oedolion eb eu brechu fod i **ffwrdd o'r ysgol am hyd at 3 wythnos** bob tro maen nhw wedi cael eu nodi fel cysylltiadau i rywun â'r frech goch.

Mae ysgolion yn lleoliadau pwysig i'n helpu i sicrhau bod plant yn cael eu brechiadau. Mae rhai brechlynnau (Ffliw a HPV) yn cael eu darparu mewn ysgolion gan Dîm Imiwneiddio Ysgolion y Bwrdd Iechyd. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol ac yn llwyddiannus, mae angen i'r tîm weithio gydag ysgolion i sicrhau yn gyntaf bod y wybodaeth yn cyrraedd teuluoedd am gyfleoedd brechu, a hefyd i drefnu a sicrhau'r dyddiadau ar gyfer y sesiynau brechu.

Ar hyn o bryd, mae rhai ysgolion hefyd yn lleoliadau ar gyfer **ymgyrch MMR (y frech goch, clwy'r pennau, rwbela)**, lle mae nifer y disgyblion yn yr ysgol sydd â'r brechiadau cywir yn is na 90%. Mae'r ymgyrch hon yn ein galluogi i frechu plant sydd heb gael eu dosau MMR, ac felly cynnig amddiffyniad iddyn nhw a'u teuluoedd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion ledled Caerdydd a'r Fro, ac wedi gwneud hynny ers blynyddoedd lawer, ond mae angen hyd yn oed mwy o weithredu ar y cyd arnom os ydym am gyrraedd lefel y brechiad sydd ei angen i amddiffyn ein poblogaeth yn llawn. **Mae angen i ysgolion ein helpu drwy:**


- Cadarnhau dyddiadau ar gyfer cyflwyno'r rhaglen imiwneiddio ar sail ysgolion, a **diogelu'r dyddiadau hynny** yn y calendr
- Darparu a **lle addas** yn yr ysgol i roi brechiadau i blant
- Cynnig **cyfleoedd addysg a hyrwyddo** o ran brechu, pan fydd rhaglenni'r ysgol (Ffliw a HPV) yn cael eu darparu, ond ar adegau eraill i godi ymwybyddiaeth, i ddisgyblion a theuluoedd, megis mewn perthynas â'r ymgyrch MMR bresennol.
- **Os yn bosibl**, cysylltu â rhieni'n uniongyrchol i drafod pwysigrwydd brechiadau MMR i iechyd ac addysg eu plant (gall y Bwrdd Iechyd ddarparu rhestr o ddisgyblion heb eu brechu).

Am ragor o wybodaeth am frechu yn ystod plentyndod, ewch i [wefan](#) y Bwrdd Iechyd.

Am ragor o wybodaeth am y frech goch a'r MMR, gweler [gwefan](#) Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi cynhyrchu'r fideo hwn i rannu gwybodaeth ddefnyddiol am frechu yn ystod plentyndod. [Cymraeg](#) / [Saesneg](#).





Mae Janine yn ymddeol!

Hoffem longyfarch Janine Hoare, ein Gweinyddwr Cefnogi Llywodraethwyr ar y newyddion am ei hymddeoliad ym mis Gorffennaf 2024. Rydym yn sicr y byddwch chi i gyd am ymuno â ni i ddymuno'r gorau iddi ar gyfer y bennod nesaf hon mewn bywyd; ymddeoliad hamddenol gwych a llawer o amser llawen gyda theulu a ffrindiau.

Mae Janine wedi chwarae rhan ganolog yn y Tîm Cefnogi Llywodraethwyr yn y Fro ers ei sefydlu ym 1996. Mae'r ymrwymiad a'r gefnogaeth y mae hi wedi'u rhoi i'r UCLI heb ei ail a byddwn yn sicr yn gweld ei heisiau, ac ni fydd yn hawdd ei disodli.

Diolch yn fawr iawn Janine am eich blynyddoedd o wasanaeth.

Dymunwn y gorau i chi ar gyfer ymddeoliad hir a hapus.





Uned Cefnogi Llywodraethwyr

Manylion cyswllt:

John Sparks
Pennaeth Cefnogi Llywodraethwyr/Prif Swyddog
Ffôn 01446 709106
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Francesca Wright
Uwch Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr
Ffôn 01446 709125
E-bost: fwright@valeofglamorgan.gov.uk

Janine Hoare
Cynorthwydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107
E-bost: JHoare@valeofglamorgan.gov.uk

Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post: VSGA a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr Dysgu a Sgiliau Swyddfeydd
Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2022-24

ae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

No	Name	School
1	Mr P Cate	Ysgol Gynradd Jenner Park
2	Swydd wag	Swydd wag
3	Ms J Evans	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Gladstone
4	Mrs M Gibbs	Ysgol Gynradd Romilly
5	Mr G Griffiths	Ysgol Gwaun y Nant & Ysgol Sant Curig
6	Cllr W Hennessey	Ysgol Gynradd y Rhws
7	Mrs C Hunt	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Nicholas
8	Mrs S Jenkins	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrews ac Ysgol Gyfun St Cyres
9	Dr C Lee	Ysgol Gyfun St Cyres
10	Cllr J Lynch-Wilson	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr
11	Dr M Price (Chair)	Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn
12	Mr D Treharne	Ysgol Gynradd Llansanwyr C/W
13	Mrs T Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-faen
14	Mr O Williams	Ysgol Sant Baruc
15	Cllr M Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria

ymhorau swydd Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (PGRs)

Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Cynradd– L Barrowclough- Ysgol Gynradd Llandochoaul
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Uwchradd– G van de Burgt – Whitmore High School